Cyflogi Gofalwr Cyflogedig/Cymhorthydd Personol

Ysgrifennwyd gan Lisa Mason, Enable Payroll

- *Biwro Cynghori Arbenigol ar restrau cyflogi a chyflogaeth yn y DU, yn helpu cyflogwyr cymorthyddion personol ers 12 mlynedd a mwy*
-

Y gwahaniaeth rhwng gofalwr a chymhorthydd personol
Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng gofalwr a chymhorthydd personol gan y gallant olygu 2 beth gwahanol:

Beth ydi Gofalwr?
Fel rheol mae gofalwr yn aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog sy'n darparu gofal sylweddol neu afreolaidd i ffrind neu berthynas anabl. Yn aml iawn, nid yw'r gofalwr yn debyn arian nac hyfforddiant na chydnabyddiaeth

Beth ydi cymhorthydd personol (PA)?
Defnyddir y term "gofalwr" ar gyfer y swydd ddisgrifiad hon hefyd, ond diffiniad agosach ati fyddai "cymhorthydd opersonol" " gofalwr cyflogedig" neu " gymhorthydd gofal personol"

Cymhorthydd Personol neu PA yw'r term a ffafrir gan bobl anabl gan mai dyna'r unig derm sy'n ddisgrifiad cywir o waith sy'n eu galluogi nhw i gael mwy o ddewis a rheolaeth yn eu bywyd ac felly mwy o annibynniaeth. Mae'n cefnogi'r Athroniaeth o Fyw'n Annibynnol. Mae unigolion sy'n debyn taliadau uniongyrchol neu'n cyflogi'n breifat ac yn chwilio am staff gofal yn eu cartrefi yn aml yn hysbysebu'r gwaith gan nodi "Angen PA"

Eich Cyfrifoldebau chi fel cyflogwr
Ynghyd â'r rhyddid a'r annibyniaeth a ddaw wrth gyflogi eich cymhorthydd personol eich hun, mae rhai cyfrifoldebau y bydd angen eu derbyn fel cyflogwr:

- Cofrestru fel cyflogwr gyda Threth a Chyllid y Wlad
- Gwybodaeth ynghylch y system dreth a delio gyda gohebiaeth gan Dreth a Chyllid y Wlad
- Amcangyfrif tâl eich staff a gwneud y didyniadau perthnasol ar gyfer treth ac Yswiriant Cenedlaethol
- Talu yswiriant Cenedlaethol eich gweithwyr i Dreth a Chyllid y Wlad pob chwarter
- Llenwi eich dychweliaadau diwedd blwyddyn
- Gwybodaeth am gyfraith a deddfwriaeth cyflogaeth
- Bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth gweithwyr fel bo eich staff yn cael eu trin yn deg ac yn unol â'r cyfreithiau sy'n eu hamddiffyn
- Sicrhau yswiriant cyflogwr
- Hysbysebu a recrwitio staff
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch

Gall swnio'n feichus iawn, ond mae digon o gefnogaeth ar gael
Gall ymddangos yn feichus iawn, ond mae sawl opsiwn ar gael all eich helpu I ddelio gyda'r cyfrifoldeb hwn. Rydym wedi derbyn llawer o adborth gan bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol neu sy'n cyflogi'n breifat sy'n dweud unwaith mae'r cwbl wedi'i sefydlu, mae'r hyblugrwydd newydd a'r manteision eraill a ddaw i'w bywydau wrth gyflogi eu cymhorthydd personol eu hunain yn amhrisiadwy! Dydi bod yn annibynol ddim yn golygu bod rhaid gwneud popeth ar eich pen eich hun gan fod digon o arweinaid a chefnogaeth ar gael ar eich cyfer.

Fel rheol gallwch dderbyn help gyda'r holl elfennau hysbysebu a recrwitio staff drwy wasanaeth cefnogi lleol. Dylai eich Gwasanaethau Cymdeithasol lleol ddarparu manylion am yr hyn sydd ar gael yn eich ardal chi.

Talidau Uniongyrchol– cynyddu eich dewis, hyblygrwydd a rheolaeth
Os nad ydach wedi clywed am daliadau uniongyrchol, byddai'n werth ichi holi eich Cyngor amdanynt gan fod nifer fawr o bobl bellach yn derbyn taliadau uniongyrchol fel dewis amgen i'r gofal cartref a ddarperir gan Wasanaethau Cymdeithasol.

.Yn dilyn asesiad gan eich rheolydd gofal, cewch daliad sy'n seiliedig ar asesiad ynghylch y nifer o oriau yr ydych ei angen pob wythnos. Mae'r taliad hwn yn daliad uniongyrchol ac fe ellid ei ddefnyddio i gyflogi eich cymhorthydd personol eich hun.

Gallwch ddarganfod mwy am daliadau uniongyrchol drwy siarad gyda'ch Cyngor lleol ac hefyd drwy ymweld â gwefan rhad ac am ddim o'r enw Enable Together, sy'n rhannu gwybodaeth ynghylch byw'n annibynnol
www.enabletogether.co.uk

Enable Payroll yn eich helpu chi gyda'ch cyfrifoldebau fel cyflogwr
Gwasanaeth ymgynghorol cefnogi cyflogaeth ydi Rhestr Gyflogi Enable sy'n darparu gwasanaeth rhestr gyflogi broffesiynol a chefnogaeth cyfraith cyflogaeth parhaus. Rydym yn gweithio gyda llawer o gynghorau a gwasanaethau cefnogol gan hyrwyddo manteision taliadau uniongyrchol ac yesbonio sut y gall ein gwasanaeth leihau'r baich o fod yn gyflogwr. Rydym yn gallu cynnig sicrwydd meddwl bod eich anghenion cyflogi yn cael eu hateb ac fod gennychn yr holl gefnogaeth a chyngor sydd ei angen arnoch i gynnal perthynas waith gadarnhaol efo'ch cymhorthydd personol.

Manteision Enable Payroll

- **Eich helpu I greu a chynnal perthynas broffesiynol gyda eich PA**
  Rydym yn cynnig cyngor proffesiynol ar gyflogaeth a'r gyfraith cyfreithiol ar hyd y daith
- **Sicrwydd am ansawdd a phrofiad**
  Gyda dros 12 mlynedd o brofiad yn delio gyda chyflogwyr PA's a Gofalwyr. rydym yn gweithredu ar ran mwy na 8,000 o gyflogwyr bychain ar draws y DU
- **Dim trafferthion**
  Rydach chi'n talu eich PA a Chyllid y Wlad ar sail ein crynodeb chwarterol. Rydan ni'n delio gyda phob gohebiaeth a ddaw gan Gyllid y Wlad ar eich rhan ar sail y slipiau cyflog a ddarperir gennym.
- **Gwasanaeth Holl gynhwysol**
  Does dim costau cudd o gwbl wrth ddefnyddio Enable Payroll- ac mae'n cynnig gwerth gwych am arian
- **Syml ac Effeithiol**
  Rydym yn cadw popeth yn glir a chryno a chyflwyno gwasanaeth personol o ansawdd uchel pob tro
- **Gwasanaeth arbenigol**
  Rydan ni'n eich deall chi. Rydan ni'n delio gyda ystod o faterion tâl a chyflogaeth ar ran defnydddwyr taliadau uniongyrchol eraill pob dydd .
- **Arian yn ôl gan y dyn treth**
  Rydan ni'n dychwelyd manylion treth yn electroneg ar ddiwedd pob blwyddyn all olygu y gallech dderbyn taliad anogol gan Gyllid y Wlad
- **Hawdd i'w ddeall**
  Mae ein taflenni ac ati yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau defnyddwyr ac mae ein gwefan yn cyfateb â safonau y WAI

Cysylltwch â Enable Payroll am fwy o fanylion:

Ffôn: 0845 226 2213
Ebost: info@enable-payroll.co.uk
Gwefan: www.enable-payroll.co.uk